

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru Maethu plentyn anabl

Rhagymadrodd

Mae plant anabl yn anad dim oll yn blant. Nid yw maethu plentyn anabl, mewn rhan fwyaf o ffyrdd, yn wahanol i faethu unrhyw blentyn arall. Mae'n rhaid i blant anabl ddygymod â heriau ychwanegol, ac o'r herwydd, fe all gofalu am blentyn anabl gynnig heriau ymarferol neu emosiynol ychwanegol i'w ofalwr maeth.

Nodyn ar iaith: Mae Llywodraeth Cymru ac Anabledd Cymru yn cefnogi iaith 'model cymdeithasol' sy'n defnyddio 'plant anabl' yn hytrach na 'phlant ag anableddau'.

Diffiniadau cyfreithiol a model cymdeithasol anabledd

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn disgrifio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i wneud gweithgareddau beunyddiol arferol. O ran plant, mae hyn yn cynnwys unrhyw wahaniaeth corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol ar eu datblygiad. Mae'n cynnwys plant â phroblemau iechyd meddwl, oediadau datblygiad, namau corfforol neu ar y synhwyrau, neu salwch hirdymor.

O'r diffiniad hwn, fe fyddai'n hawdd rhagdybio mai nam rhywun yw'r hyn sy'n eu hanablu nhw. Fodd bynnag, mae model cymdeithasol anabledd yn eglur bod pobl yn cael eu hanablu oherwydd bod gan gymdeithas ddisgwyliadau o'r hyn y mae 'normal' yn ei olygu ac felly mae popeth yn cael ei drefnu o amgylch anghenion pobl 'normal'. Mae hyn yn creu rhwystrau diangen sy'n anablu plant ac oedolion drwy wneud bywyd beunyddiol a datblygiad yn anos neu'n amhosibl. Gwnaeth Llywodraeth Cymru fabwysiadu model cymdeithasol anabledd yn ffurfiol yn 2002.

Pam mae ar blant anabl angen eu maethu?

Mae ar blant anabl angen eu maethu am yr un rhesymau ag unrhyw blentyn sydd angen gofal gwahanol. Efallai bod plant anabl yn fwy agored i gamdriniaeth, yn neilltuol os oes ganddynt sgiliau cyfathrebu prin.

Gall fod gan rai plant anabl Gynllun Gofal a Chymorth, a all gynnwys seibiant, er mwyn rhoi egwyl fer i'r teulu (gweler Cod Ymarfer 6, 288 i 301) oddi wrth y naill a'r llall - caiff y plentyn gyfle am brofiadau newydd, tra bod ei rieni ac unrhyw frodyr a chwiorydd yn cael cyfle i ganolbwyntio ar eu hamser o ansawdd eu hunain ac i ddadebru ac i gael hoe fach. Yn aml, mae gan deuluoedd a chanddynt blentyn anabl rwydweithiau cymdeithasol llai, ac fe all anghenion eu plentyn ei gwneud hi'n anos gwneud trefniadau anffurfiol. Yn ychwanegol, mae llawer o blant anabl yn ei chael hi'n anodd neu'n amhosibl cymryd rhan mewn clybiau ar ôl ysgol, cynlluniau chwarae, clybiau chwaraeon a chlybiau a gweithgareddau cymunedol eraill, oherwydd nad oes gan yr adeiladau fynediad llawn ar gyfer anabledd neu oherwydd

nad yw'r arweinwyr yn ymwybodol o sut i gynnwys plant anabl. Golyga hyn nad yw eu rhieni'n cael yr egwylliau beunyddiol y mae rhieni eraill yn dibynnu arnynt.

Bod yn blentyn anabl mewn gofal maeth

Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal yn wynebu rhwystrau dichonol rhag cyflawni'i botensial. Mae plentyn anabl sy'n derbyn gofal yn wynebu cymaint ddwywaith o rwystrau. Iddyn' nhw lwyddo, mae ar eu gofalwr maeth angen defnyddio sgiliau cyfathrebu ac eiriolaeth pendant i siarad drostynt ac i sicrhau y caiff eu hawliau cyfreithiol eu deall a'u gorfodi. Mae [Rhan 3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru](#) yn egluro sut y caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu nodi a'u diwallu.

Rôl y gofalwr maeth

Disgwyllir ichi weithio ag ystod eang o weithwyr proffesiynol eraill mewn iechyd, addysg a hamdden. Mae gan y gofalwr maeth rôl allweddol i gyfrannu at gydgylltu gwasanaethau a sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol eraill ddarlun drwodd a thro o fywyd y plentyn neu'r person ifanc.

Mae gan ofalwyr maeth rôl i eiriol dros y plentyn, herio camwahaniaethu a chynorthwyo'r plentyn i ddatblygu sgiliau ac offer fydd yn cynyddu'i wynwch (gweler y daflen ffeithiau, 'Gwynwch').

Efallai y bydd arnoch angen gwneud addasiadau mawrion neu fân addasiadau i'ch cartref neu i'ch bywyd beunyddiol i gynorthwyo datblygiad a lles y plentyn hwnnw. Os yw'r plentyn gyda chi dros yr hirdymor, fel gofalwr maeth fe allwch wneud cais am grant cyfleusterau anabl ar gyfer addasiadau i'ch cartref. Os yw'r plentyn gyda chi dros y byrdymor, fe ddylech ddisgwyl i'ch awdurdod lleol ddarparu neu drefnu unrhyw addasiadau hanfodol neu gyfarpar arbenigol.

Mae addasu bywyd beunyddiol yn golygu gweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill i nodi pa amgylchedd a rydd y cyfleoedd gorau i'r plentyn ddatblygu a ffynnu, ac wedyn canfod sut y gallwch ddarparu hyn heb osod straen ormodol ar eich bywydau'ch hunain.

Gall rhai plant anabl hyd at 16 oed dderbyn y Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) neu os ydynt dros 16 oed, y Taliadau Annibyniaeth Personol oddi wrth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), i dalu costau ychwanegol anabledd. Dylai gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol drafod a ddylid gwneud cais. Ni ddylai gofalwyr maeth dderbyn lwfans maethu is neu orfod rhoi cyfrif am sut y gwarir unrhyw Daliad Annibyniaeth Personol neu Lwfans Byw i'r Anabl. Fodd bynnag, fe ddylai gofalwyr maeth sicrhau y cofnodir yr holl wariant o fewn gweithdrefnau'u hasiantaeth er mwyn bod yn atebol am yr arian a dderbynnir.

Dylid rhoi sylw a sensitifrwydd arbennig i anghenion plant anabl sydd wedi cael profiad o lu o roddwyr gofal fel rhan o'u trefn reolaidd, ac i'w hangen i gael parhad rhesymol o ran rhoddwyr gofal. Pan fo ar berson ifanc anghenion arbennig eraill, mae'n **rhaid** rhoi ystyriaeth i barhad gofal arbenigol gan ddarpariaeth y GIG a gwasanaethau iechyd yr ysgol, a ddylai fod yr un i blant sy'n derbyn gofal ag i unrhyw blentyn arall.

Bydd pobl ifanc anabl yn wynebu llawer o'r un profiadau a heriau â phobl eraill sy'n gadael gofal yn y pontio i fyd oedolion (gweler Cod Ymarfer 6, 487 i 499).

Gall y pontio i ddarpariaeth oedolion o ofal cymdeithasol, megis Cysylltu Bywydau, alluogi'r gofalwr maeth i barhau i fod yn gysylltiedig (gweler Cod Ymarfer 6, 503 i 506).

Cymuned

Dylai fod gan ofalwyr maeth wybodaeth leol am adnoddau sydd ar gael yn y gymuned sy'n hygyrch ac sy'n addas i blant anabl.

Addysg

Mae ar rai plant angen cymorth ychwanegol er mwyn cyflawni'n addysgol. I'r rhan fwyaf, golyga hyn gymorth ychwanegol o fewn eu hysgol brif ffrwd leol. I ychydig, golyga hyn fynd i ysgol arbenigol. Mae ar rai plant angen cymorth ychwanegol er nad ydynt yn blant anabl. Efallai bod arnynt ond angen amgylchedd dysgu gwahanol neu gymorth ychwanegol er mwyn dysgu.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweddnwedd y system ar gyfer cynorthwyo plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ALN) yng Nghymru. Mae deddfwriaeth a chanllawiau statudol newydd ond yn un agwedd, er yn agwedd sylfaenol, o'r pecyn ehangach o ddiwygiadau sydd eu hangen. Mae Rhaglen Trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ar gyfer y gweithlu addysg i ddarparu cymorth effeithiol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth, yn ogystal â mynediad haws at gymorth, gwybodaeth a chyingor arbenigol. Bydd Rhaglen Trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol yn gweddnwedd y systemau gwahanol ar gyfer anghenion addysgol arbennig mewn ysgolion ac anawsterau dysgu ac/neu anabledau mewn addysg bellach i greu system unedig ar gyfer cynorthwyo dysgwyr o 0 i 25 sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/additional-learning-special-educational-needs/transformation-programme/?lang=en>

Adnoddau

Mae Cyswllt Teulu yn fan cychwyn da am wybodaeth, yn cynnwys gwybodaeth am unrhyw grwpiau neu wasanaethau cymorth lleol

<https://contact.org.uk/wales>

Canllaw Darllen Hawdd i hawliau cyfreithiol pobl anabl yng Nghymru

<http://www.disabilitywales.org/wordpress/wp-content/uploads/Know-Your-Rights-Easy-Read-version.pdf>

Hawliau plant yng Nghymru

<https://www.childcomwales.org.uk/uncrc-childrens-rights/>

Cwrs e-ddysgu am ddim gan Y Rhwydwaith Maethu a Disability Matters

<https://www.thefosteringnetwork.org.uk/news/2015/free-online-learning-resource-foster-carers-children-and-young-people-disabilities>

Llywodraeth Cymru: Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal
<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children/?lang=en>

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
<http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-youngpeople/rights/uncrc/?lang=en>

Gweithiodd Anabledd Cymru yn gydgyhyrchiol â phartneriaid, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i ddatblygu pecyn cymorth 'Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol – Galluogi Cymru'
<http://www.disabilitywales.org/transforming-social-services-toolkit/>

Mae SNAP Cymru <http://www.snapcymru.org/> yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, plant a phobl ifanc ag arnynt, neu a all fod arnynt, anghenion addysgol arbennig neu anabledau. Darparwn y gwasanaethau diduedd, cyfrinachol a rhad ac am ddim a ganlyn: Cyngor a chymorth llinell gymorth, gwaith achos arbenigol, eiriolaeth arbenigol annibynnol ac osgoad. Y llinell wybodaeth a chyngori 0345 120 37 30 Llun – Gwener 9.30yb – 4.30yp.

Cerebra – Gweithio rhyfeddodau dros blant â chyflyrau'r ymennydd
www.cerebra.org.uk
Cymorth i Rieni: Cyfeiriad Rhadbost - Cerebra (Cymorth i Rieni), RHADBOST / FREEPOST SWC3360, Caerfyrddin SA31 1ZY E-bost: info@cerebra.org.uk
Llinell gymorth (rhadffon): 0800 328 1159

Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth yn wastad yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, cyhoeddiadau, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori hanfodol i aelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ydych yn ffonio y tu allan i'r amser hwn, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

Fosterlinewales@fostering.net

Y Rhwydwaith Maethu

1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead, Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cymorth ac Adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chyngor gan gymheiriaid thefosteringnetwork.org.uk

Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltwch â

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Y Rhwydwaith Maethu
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017